CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
12 Mai 2021
AM 7.30 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, P Roberts, H Eddings, E Law-Shui Nicholson, J Earnshaw, E Huws, C Griffiths, D Rees (Cyngor Sir - cyflwyniad Solar yn unig), G Owen (Clerc),	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R G Parry, G Parry, S Jones	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Dechreuodd y cyfarfod gyda'r Cadeirydd yn croesawu Ceri Griffiths (aelod newydd), hefyd Will Morgan, James Hartley-Bond a Ben Lewis a roddodd gyflwyniad ar gais Traffwll Solar Farm. Buont yn siarad am y cynigion cychwynnol a chyfredol, dyluniad prosiect, arwynebedd tir, gwaith arolygu, pwynt cysylltu â'r rhwydwaith, traffig adeiladu a llinell amser. Yna fe wnaethant ateb cwestiynau a chadarnhau y bydd ymgynghori ac ymgysylltu pellach.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 14.04.21
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Cysgodfannau Bws** – Dywedodd y Cadeirydd bod y cwmni wedi gwneud gwaith da iawn
4.2	**Willow Tunnel** – Bydd y Clerc y gofyn i'r contractwr gwneud y Gwaith.
4.3	**Pont Hebron –** Mae'r gwaith wedi'l wneud
4.4	**Gor-yrru Bryngwran** - Mae'r Clerc wedi derbyn pris am oleuadau sy'n fflachio a bydd yn gwneud ymholiadau ynghylch cost eu gosod a bydd yn chwilio am grantiau. Hefyd ymateb Adran Priffyrdd: "*Byddwn yn trafod eich pryderon ynglyn a goryrru trwy'r pentre gyda Gan Bwyll / Go Safe ac yn gofyn iddynt ystyried ymweld â'r A5 ym Mryngwran yn amlach"*
	Llofnod…….Cadeirydd 09.06.21

4.5	**Lon y Fynwent** - Mae'r Clerc wedi gofyn i R G Hire am bris i ail-wynebu'r trac ac mae ganddo apwyntiad ddydd Llun nesaf gyda Hogans
5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Diolchodd y Cadeirydd i bawb am weithio cystal gyda'i gilydd a dywedodd ei fod yn falch o nodi bod gan y cyngor 10 aelod bellach
6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Dim
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.1	**Gor-yrru Bryngwran** – gweler 4.4
8	**MATERION ERAILL**
8.1	**Polisi iaith Cymraeg** - Mae'r aelodau wedi derbyn copi o Bolisi Iaith Cymraeg y cyngor. Cytunwyd nad yw'r polisi'n newid
9	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
9.1	Anglesey Painting Services £450.00
9.2	Derbyniodd yr aelodau y cyfrifon ariannol ar gyfer 2020/21
10	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
10.1	Diwrnod Hwyl
10.2	Paentio cae chwarae
	Llofnod…….Cadeirydd 09.06.21